OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2716 (Cy.245)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *16 Hydref 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *17 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *7 Tachwedd 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**2**), a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**),a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae'r rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer diben y cyfeirir ato yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac y mae'n ymddangos yn hwylus i Weinidogion Cymru ddehongli cyfeiriadau at offerynnau'r Gymuned Ewropeaidd yn y Rheoliadau hyn fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 7 Tachwedd 2008.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliad Ewropeaidd" ("*the European Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 Senedd Ewrop a'r Cygor ar reoli salmonela a chyfryngau milheintiol penodedig eraill sy'n ymledu drwy fwyd (**4**);

(**1**) 1973 p.51.
(**2**) 2006 p.32.
(**3**) 1972 p. 68.
(**4**) OJ Rhif L325, 12.12.2003, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1273/2007 ar 23 Hydref 2007.

ystyr "Rheoliadau 2006" ("*the 2006 Regulations*") yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006 (**5**);

ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau sydd wedi'u cymryd o dan bwynt 2.1.2.2 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o Gallus gallus ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**6**) neu bwynt 2.1 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau dodwy o Gallus gallus ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1003/2005(**7**).

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at offeryn Cymunedol yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

**Ffioedd**

**3.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru godi unrhyw ffioedd a fydd, yn eu barn hwy, yn eu galluogi i dalu unrhyw dreuliau rhesymol yr ânt iddynt wrth iddynt gyflawni'r gweithgareddau a ganlyn—

(a) cymryd neu oruchwylio cymryd samplau rheoli swyddogol;

(b) archwilio samplau rheoli swyddogol;

(c) prosesu cais am gymeradwyo labordy o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd;

(ch) prosesu dogfennau cofrestru blynyddol mewn perthynas â labordy a gymeradwywyd o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd;

(d) archwilio labordy at ddiben rheoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd;

(dd) gweinyddu prawf rheoli ansawdd o dan reoliad 21 o Reoliadau 2006 neu Erthygl 12 o'r Rheoliad Ewropeaidd.

(2) Mae ffioedd yn daladwy i Weinidogion Cymru gan—

(a) y person sydd â gofal daliad pan fo samplau rheoli swyddogol yn cael eu cymryd mewn perthynas â'r gweithgareddau ym mharagraff (1)(a) a (b); a

(b) gweithredydd y labordy mewn perthynas â'r gweithgareddau ym mharagraff (1)(c) i (dd).

(3) Rhaid talu unrhyw ffi sy'n daladwy o dan y rheoliad hwn i Weinidogion Cymru o fewn 14 diwrnod ar ôl cael cais gan Weinidogion Cymru.

**Dirymiad**

**4.** Dirymir Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007(**8**).

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

16 Hydref 2008

(**5**) O.S. 2006/1293 (Cy. 127).
(**6**) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12.
(**7**) OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t.4.
(**8**) O.S. 2007/2496 (Cy.215).

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn darparu i Weinidogion Cymru godi ffioedd am weithgareddau sy'n ofynnol o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006, Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 a Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006. Rhestrir y gweithgareddau yn rheoliad 3(1). Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2496 (Cy.215)).

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Rheoliadau hyn wedi ei lunio a'i atodi i'r Memorandwm Esboniadol. Gellir cael copïau ohono oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.